Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

At Ysgol Arloesi

26 Hydref 2016

Annwyl Gyfaill

Adolygiad o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru: Gweithredu

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar y gwaith o weithredu Adolygiad yr Athro Graham Donaldson, sef *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*.

Yn y cynllun gweithredu, '*Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes'* nodwyd mai'r nod oedd i'r cwricwlwm newydd fod ar gael erbyn 2018 ac iddo gael ei gyflwyno'n llawn yn 2021. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd bydd y Pwyllgor, felly, yn monitro hynt y gwaith yn rheolaidd.

Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed gan Ysgolion Arloesi i'w helpu i graffu ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi argymhellion yr adolygiad ar waith. Byddai'r Pwyllgor yn hoffi clywed am y canlynol yn benodol:

- Y profiad o fod yn aelod o rwydwaith o Ysgolion Arloesi sy'n helpu i ddatblygu'r cwricwlwm newydd;
- Manylion unrhyw waith cwricwlwm y mae'r Ysgolion Arloesi wedi bod ynghlwm ag ef ac unrhyw wybodaeth berthnasol yr hoffent ei dwyn i sylw'r Pwyllgor;
- Sylwadau ar y modd y mae'r gwaith o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd yn mynd rhagddo ac unrhyw sylwadau eraill ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi argymhellion yr Athro Donaldson ar waith.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Bydd y Pwyllgor hefyd yn cymryd tystiolaeth lafar gan nifer o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys yr Athro Donaldson. I'n helpu gyda'r gwaith hwn, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn anfon eich ymatebion i'r pwyntiau uchod erbyn **11 Tachwedd 2016**.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC / AM
Cadeirydd / Chair